

# 3b Dolwyddelan - Betws y Coed

## 3b Heibio Sarn Helen

**Pellter:** 12.8km / 6milltir, tua 3-3.5awr
**Graddfa:** Cymedrol, gan ddringo'n raddol
**Crynodeb:** llwybr hanesyddol a thrwy adfeilion yr hen bentref.

### Y Daith Gerdded

**1.** Dilynwch Taith 2 hyd at Westy Plas Hall. Ewch i'r chwith a dros y bont o flaen y gwesty,croesi'r A470 a mynd drwy'r giât fach sy gyferbyn. Trowch i'r chwith a dilyn y llwybr o dan y ty. Croeswch y gamfa ac, wrth y wal, dringwch y grisiau cerrig i'r lôn. Ewch i'r dde a dilyn y lôn ar i fyny. Pan fydd y lôn yn gwyro i'r dde, ewch chithau i'r chwith ac ymlaen drwy'r gamfa/giât i'r llwybr llydan.

*Tybir mai rhan o Sarn Helen yw'r llwybr hwn: ffordd y Rhufeinwyr a gysylltodd eu caer yng Nghaerhun gyda'u gwersyll yn Nhrawsfynydd.*

Dilynwch y llwybr llydan hwn gan groesi'r gamfa i'r rhostir, ac wedyn dros gamfa arall ac i mewn i'r goedwig. Ewch yn syth ymlaen ar groesffordd ffyrdd y goedwig gan fynd heibio mannau agored a phlanhigfeydd ifanc. Ewch drwy'r giât ac i lawr y llwybr llydan heibio'r adfeilion.

2. *Rhiwddolion yw'r enw ar y pentref bach adfeiliedig hwn. Yma bu chwarelwyr a'u teuluoedd yn byw yn yr 19eg ac ar ddechrau'r 20fed ganrif. Roedd rhai ohonynt yn gweithio yn chwarel Hafod Las gyfagos ac eraill yn cerdded i Ddolwyddelan ar Sarn Helen.*

Ewch drwy giât a chroesi nant gan ddilyn y llwybr caregog ar i fyny. Ewch ymlaen ar hyd y llwybr hwn, sydd â tharmac ar ran ohono, i lawr heibio'r ffermdy ac i ffordd y goedwigaeth. Ewch drwy ddwy giât a dilyn y llwybr rhwng y waliau. Croeswch ffordd y goedwig, wedyn pont, wedyn camfa. Ewch ymlaen i lawr ac i'r lôn. Croeswch ffordd yr A5 a dilyn y llwybr arwyddedig gyferbyn i groesi Pont y Mwynwyr. (Adeiladwyd y bont wreiddiol ar gyfer y mwynwyr plwm o Bentre Du a gerddai bob dydd i fwyngloddiau Gwyndy). Ewch i'r dde a dilyn y llwybr ar hyd glan yr afon i Fetws-y-coed. I'r dde dros y bont ac wedyn i'r chwith gan fynd heibio'r eglwys ar y llaw dde. I fynd yn ôl i Ddolwyddelan ar y trên, ewch i'r chwith ac i'r orsaf. (I ddod 'nôl heibio Llyn Elsi, ewch i'r dde o flaen yr eglwys ac wedyn i fyny ar ffordd y goedwig, gan ddilyn taith 3a ond y ffordd chwith).

## 3b Via Sarn Helen

**Distance:** 12.8km / 6miles, allow 3-3.5hrs
**Grade:** Moderate with a steady climb
**Summary:** Historic track passing ruined village

### The Route

**1.** Follow walk 2 to Plas Hall Hotel. Turn left over the bridge before the hotel. Cross A470 and go through a small gate opposite. Turn left and follow path below a house. Cross a stile and, at wall, climb stone steps onto a lane. Turn right and follow the lane uphill. Where the lane bends right, continue ahead through gate/stile onto a track.

*This is thought to be Sarn Helen, a Roman road that linked their fort at Caerhun with their camp at Trawsfynydd .*

*Rhiwddolion*



Follow this track, crossing a stile onto moorland and later another stile into forest. Continue ahead at a crossroads of forest tracks, passing open areas and young plantations. Go through a gate and continue down the track past ruins.

**2.** *This ruined hamlet is Rhiwddolion where quarrymen and their families lived in the 19th and early 20th centuries. Some worked at nearby Hafod Las quarry and others walked to Dolwyddelan along Sarn Helen.*

Go through a gate and over a stream, following a stony track uphill. Continue along this track, tarmaced for a section, downhill past a farmhouse to a forestry road. Go through two gates opposite and follow the path between old walls. Cross a forest road and later a footbridge and then a stile. Continue down onto a lane. Cross the A5 and follow the signed path opposite to cross Miner's Bridge. (The original bridge was erected for lead miners from Pentre Du who walked daily to the Gwydyr mines.) Turn right and follow the riverside path to Betws-y-coed. Turn right over the bridge then left, passing the church on the right. To take the train back turn left to the station. (To return via Llyn Elsi turn right before the church and take the forest track uphill, following route 3a in reverse.)



# 3c Dolwyddelan - Capel Curig

## 3c Dolwyddelan - Capel Curig

**Pellter:** 6.4km/4milltir, tua 2-2.5 awr
**Graddfa:** Cymedrol, dringo'n raddol
**Crynodeb:** Coedwig, rhostir a golygfeydd o'r mynyddoedd

### Y Daith Gerdded

**1.** O'r maes parcio, cerddwch yn ôl i bentref Dolwyddelan ac i'r ffordd A470. Croeswch y briffordd a cherdded i fyny'r allt heibio swyddfa'r post a'r toiledau ar y llaw chwith. Ar y gyffordd, ewch i'r dde ac yna i'r chwith a dros y gamfa i mewn i gae. Cerddwch i'r gornel uchaf ar y dde a chroesi'r gamfa i'r cae nesaf. Ewch heibio'r tŷ ar y chwith a dilyn y dreif o'ch blaen gyda golygfeydd da i gyfeiriad y de. Croeswch y grid gwartheg a throi i'r chwith i'r llwybr llydan. Ar gyffordd ffyrdd y goedwig, ewch i'r chwith a dilyn y llwybr llydan gan anwybyddu'r llwybr ar y dde. Tueddwch i'r chwith ar gyffordd y llwybrau, gan groesi'r bont ymhen ychydig.

**2.** Gelwir y llwybr hwn sy'n mynd rhwng y pentrefi yn 'Sarn yr Offeiriad' am i'r offeiriad ei ddefnyddio i deithio rhwng ei eglwysi. Ers talwm, roedd pont garreg syml - Pont Sarn Offeiriad - yn croesi'r afon.

Ewch ymlaen ar lwybr llydan clir drwy'r goedwig sydd wedi'i chlirio. Anwybyddwch y llwybrau sydd ar y naill ochr a'r llall. Tua 1km ar ôl y bont gyntaf croeswch yr afon eto. Anwybyddwch y llwybr llydan cyntaf ar y dde, ond ewch tua'r dde ar y fforch yn y llwybr ymhen 50m. Anwybyddwch y llwybr llydan nesaf ar y chwith ond ymhen 100m trowch i'r dde ar hen lwybr sy'n arwain i'r mynydd. Croeswch y gamfa wrth y giât a dilyn yr hen lwybr dros y mynydd. Toc ar ôl croesi camfa arall, chwiliwch am olion cylchoedd cytiau o'r Oes Efydd ar y chwith. Erbyn hyn mae'r llwybr yn disgyn yn araf a cheir golygfeydd gwych tua'r gogledd. Croeswch y llwybr glaswellt a dilyn y llwybr ymlaen ac i lawr gan groesi'r gamfa a cherdded i lawr i'r lôn. Ewch i'r chwith a dilyn y lôn dros y bont garreg i'r A5. Ewch i'r dde ac i faes parcio Bryn Glo a'r caffi, neu i'r chwith i Gapel Curig (bysiau'n rhedeg i Fetws-y-coed).

## 3c Dolwyddelan - Capel Curig

**Distance:** 6.4km / 4miles, allow 2-2.5 hrs
**Grade:** Moderate, gentle ascent
**Summary:** Forest and moor with mountain views

### The Route

**1.**From the car park walk back into Dolwyddelan and continue to A470. Cross main road and walk up the hill, past post office and toilets on left. At junction turn right then left over stile into field. Walk to top right corner and cross stile into next field. Pass a house on left and follow drive ahead, with good views south. Go over cattle grid and turn left onto track. At junction with forest track turn left. Follow track, ignoring footpath on right. Bear left at track junction, soon crossing a footbridge.

**2.** *This path between the villages is named Sarn yr Offeiriad path - as the priest used it travel between his churches. A simple stone clapper bridge, Pont Sarn Offeiriad, formerly crossed the river.*

Continue on the clear track through the felled forest ignoring paths on either side. 1km after the first bridge cross the river again. Ignore first track on right but bear right at track fork 50m later. Ignore next track on left but after 100m turn right onto an old track leading to the moorland. Cross stile by gate and follow old track across the moors. Soon after crossing another stile look for the remains of Bronze Age hut circles on the left. The track now gradually descends with superb views north. Cross a grassy track and follow path ahead downhill, crossing a stile to walk down to a lane. Turn left and follow lane over a stone bridge to A5. Turn to Bryn Glo car park and café or left to Capel Curig (buses run to Betws-y-coed).

*Pont Sarn Offeiriad (wedi diflannu erbyn hyn)*
*Pont Sarn Offeiriad (now demolished)*

